Credydau Treth Plant a theuluoedd ar Gymhorthdal Incwm

Cyflwyniad

Mae'n debyg yn ystod 2008, bydd rhieni ar Gymhorthdal Incwm yn gweld newidiadau mawr yn y modd y gweinyddir eu taliadau budd-dâl. Hyd yma, mae unigolion wedi gallu dewis un ai hawlio Credyd Treth Plant(CTC) neu beidio. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn bwriadu talu CTC yn awtomatig i rieni sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm. Disgwylir y bydd hyn yn digwydd cyn 2009.

Yn yr arweiniad byr sy'n dilyn, edrychwn ar sut y bydd talu'r CTC yn effeithio ar deuluoedd sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm ar hyn o bryd. Mae'r un rheolau'n berthnasol i deuluoedd sy'n derbyn Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm.

Beth yw'r Credyd Treth Plant (CTC)?

Budd-dâl prawf modd yw hwn y gellid ei hawlio gan unrhyw un sydd â phlentyn dibynnol. Gellid ymgeisio amdano boed rhywun mewn gwaith neu beidio ac mae'n cael ei dalu ar ben Budd-dâl Plant. Mae'r union swm a dderbynir yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol, gan gynnwys y nifer o blant sydd gennych ac os oes ganddynt anabledd ai peidio.

Ydi'n bosib imi dderbyn CTC a Chymhorthdal Incwm?

Unwaith y dechreuwch dderbyn CTC, bydd eich dyfarniad Cymhorthdal Incwm yn cael ei ail-asesu. Dim ond cynnwys symiau ar gyfer eich hunain(ac unrhyw bartner os oes partner gennych) y bydd eich dyfarniad Cymhorthdal Incwm newydd.Fyddwch chi ddim bellach yn derbyn unrhyw daliadau Cymhorthdal Incwm ar gyfer plant gan y bydd rhain yn cael eu disodli gan y CTC. Bydd y rhan fwyaf o rieni yn parhau i dderbyn Cymhorthdal Incwm ar raddfa is. Fodd bynnag, fe all rhai teuluoedd ddarganfod na fyddant yn derbyn Cymhorthdal Incwm unwaith y mae'r taliadau ar gyfer eu plant wedi eu dileu.

Os bydd derbyn treth credyd plant yn fy nhynnu oddi ar Cymhorthdal Incwm, fydd hynny'n golygu hefyd y byddaf yn methu derbyn mathau eraill o help?

Os nad ydach chi'n derbyn Cymhorthdal Incwm., bydd rhaid ail-asesu eich Budd-dal Rhent a Threth Cyngor. Bydd maint yr ad-daliadau yn dibynnu ar eich incwm gan gynnwys y taliad CTC. Dylech barhau i dderbyn help gyda chostau GIC cyn belled â'ch bod ar CTC, ac nad yw eich incwm trethadwy blynyddol ddim mwy na £15,050. Bydd gennych hefyd yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim cyn belled â'ch bod yn derbyn CTC, nad ydach chi na'ch partner yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos a mwy., a bod eich incwm trethadawy blynyddol yn para'n is na

£14,495. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gallu ymgeisio am grantiau gofal cymunedol na benthyciadau gan y Gronfa Gymdeithasol.

Esiampl A – Teulu'n parhau ar Gymhorthdal Incwm wedi derbyn dyfarniad CTC

Mae gan Mr and Mrs Khan ddau o blant ac un ohonynt yn gymwys i dderbyn cyfradd gofal DLA canolig. Mae Mrs Khan yn derbyn Budd-dâl Plant o £31.35 yr wythnos a lwfans Gofalwr o £50.55 yr wythnos. Mae'r teulu hefyd yn derbyn Cymhorthdal Incwm o £211.45. Dyna gyfanswm incwm o **£293.35** yr wythnos. Maent hefyd yn derbyn ad-daliadau llawn ar gyfer rhent a threth Cyngor.

Ar ryw bwynt, bydd Mrs Khan yn cychwyn derbyn CPC o £139.30 yr wythnos ar gyfer y ddau blentyn. Bydd yn parhau i dderbyn y Lwfans Gofalwr a Budd-dâl Plant fel ag o'r blaen. Fodd bynnag, bydd eu Cymhorthdal Incwm yn cael ei ail-asesu. Gan nad ydynt bellach yn derbyn symiau cymhorthdal incwm ar gyfer plant, caiff ei dalu ar gyfradd is o £72.15 yr wythnos. Bydd cyfanswm incwm wythnosol y teulu'n parhau ar **£293.35** yr wythnos ac fe fyddant yn parhau i dderbyn ad-daliadau rhent a threth Cyngor fel ag o'r blaen.

Pryd fyddai'n dechrau derbyn CTC?

Bydd rheini ar Gymhorthdal Incwm yn debyn CTC yn awtomatig a disgwylir y bydd hyn yn digwydd rhywbryd cyn 2009. Os hoffech wneud hynny, gallwch ddewis hawlio CTC rwan yn hytrach na disgwyl i'r newid ddigwydd. Oherwydd rhai rheolau budd-dâl, gall rhai rheini fod yn well eu byd wrth ddewis symud at CTC rwan hyn. Mae hyn yn debygol iawn yn hanes rhai grwpiau megis myfyrwyr efo phlant a theuluoedd sydd wedi derbyn lwfans gorchymyn preswyl neu sy'n derbyn taliadau mabwysiadu wedi iddynt fabwysiadu plentyn. Serch hynny, bydd union natur y dyfarniad yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol ac fe ddylech geisio cyngor manwl pob tro.

.

Cred y llywodraeth y bydd y rhan fwyaf o rieni un ai yn well eu byd neu'n gweld dim newid yn eu hincwm wythnosol wrth dderbyn CPC. Fodd bynnag, fe all fod nifer fechan o reini fydd yn waeth eu byd. Gall hyn ddigwydd mewn nifer fechan o achosion ble fo'r teulu'n derbyn help gyda'u morgais ar hyn o bryd drwy gyfrwng Cefnogaeth Incwm. Os yw dyfarniad CPC yn eich cymryd oddi ar Gefnogaeth Incwm, fe allech weld fod y Treth Cyngor yr ydych yn dechrau ei dalu yn fwy na'r incwm ychwanegol a gewch gan y CPC. Ble fo hyn yn digwydd, dylech ystyried ymgeisio am "Daliad tai trwy ddisgresiwn" gan eich Awdurdod Lleol er mwyn cynyddu maint y cymorth a gewch at eich treth cyngor.

Esiampl B – teulu'n dod oddi ar gymhorthdal incwm yn dilyn cais am CTC

Rhiant sengl yw Miss Green gydag un plentyn. Mae'n gymwys i dderbyn y Lwfans Byw Anabl ar y raddfa isel. Mae gan Miss Green broblemau iechyd ei hun ac mae'n derbyn **Budd-dâl Analluedd** o £102.25 yr wythnos. Mae hefyd yn derbyn Budd-dal Plant o £18.80 yr wythnos a Chymhorthdal Incwm o £83.06 yr wythnos. Dyna wneud gyfanswm o **£204.11 yr wythnos**. Mae'n derbyn ad-daliad rhent a threth cyngor llawn. Ar ryw bwynt bydd Miss Green yn derbyn £99.42 CTC yr wythnos. Bydd hi'n parhau i dderbyn Budd-dal Analluedd a Budd-dâl Plant fel ag o'r blaen, Fodd bynnag, bydd ei dyfarniad Cymhorthdal Incwm yn dod i ben.

Bydd ei hincwm wythnosol yn cynyddu i **£220.47 yr wythnos**, cynnydd o £16.36. Fodd bynnag,bydd ei budd-dal tai a threth cyngor yn cael ei ail-asesu. Bydd angen iddi dalu £10.63 tuag at ei rhent a £3.72 tuag at ei threth cyngor. Dylai barhau i dderbyn cymorth llawn gyda'i chostau GIC a phrydau ysgol.

Gwybodaeth pellach

Os hoffech wybofdaeth manwl ynghylch sut y bydd dyfarniad CTC yn effeithio arnoch chi, yna ffoniwch Llinell Gymorth Cyswllt Teulu ar 0808 808 3555(10.00 i 4.00 yn ystod yr wythnos a Nos Lun o 5.30-7.30) neu e-bostiwch helpline@cafamily.org.uk.